

<b>YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>PWYLLGOR CONTRACTAU A BUDDSODDI</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>6 TACHWEDD 2018</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MWY</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>Cytuno ar swm i'w ddyranu ar gyfer grantiau mwy yn 2019</b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b>TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>
<b>GWEITHREDU:</b>	<b>Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan Reolwyr Buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth, penderfynu ar y swm a fydd yn cael ei ddyranu ar gyfer grantiau mwy yn 2019</b>

## **1. CEFNDIR**

- 1.1** Yn ystod y dair mlynedd ddiwethaf, rhoddodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn swm o arian o'r neilltu er mwyn cyllido ceisiadau llwyddiannus am grantiau mwy (dros £8,000). Dyrannwyd £200,000 yn 2016 a £350,000 yn 2017 a 2018.
- 1.2** Yn achos 2018, hysbysebwyd y broses ymgeisio yn eang ac, o ganlyniad, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 34 o geisiadau gan sefydliadau yn gofyn am gymorth – gyda'r ceisiadau i gyd yn dod i gyfanswm o £1.48m. Wedi i'r Pwyllgor Adfywio asesu ac ystyried y ceisiadau, bu 14 ohonynt yn llwyddiannus a chafodd y swm llawn o £350,000 ei ddyranu mewn grantiau.
- 1.3** Er mai penderfyniad i'r Ymddiriedolaeth lawn yw penderfynu a ydynt yn dymuno neilltuo cyllid ar gyfer grantiau mwy yn 2019, mater i'r Pwyllgor hwn yw penderfynu ar y swm fydd yn cael ei ddyranu.

## **2. Y FETHODOLEG AR GYFER PENDERFYNU AR WERTH Y GRONFA**

- 2.1** Ym 2017, ystyriodd y Pwyllgor hwn 3 opsiwn i benderfynu ar y swm i'w ddyranu:-
  - Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio (heb gynnwys gwerth yr arian parod a drosglwyddwyd i mewn i'r portffolio yn ystod y flwyddyn);
  - Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio (gan gynnwys gwerth yr arian parod a drosglwyddwyd i'r portffolio yn ystod y flwyddyn);
  - Cadw'r swm a ddyrannwyd fel y flwyddyn flaenorol h.y. £350,000.
- 2.2** Dylid nodi bod risg bob amser y gall gwerth cyfalaf y buddsoddiadau ostwng ac y gallai dyrannu swm sy'n rhy uchel ar adeg pan fo gwerth cyfalaf y gronfa yn tyfu, gael effaith andwyol ar ddychweliadau ar fuddsoddiadau yn y dyfodol petai gwerth cyfalaf y gronfa'n dechrau gostwng yn sydyn.
- 2.3** O'r herwydd, rhaid i'r Pwyllgor gymryd i ystyriaeth gyngor y Rheolwr Buddsoddi cyn penderfynu faint o arian fydd yn cael ei ddyranu, gan sicrhau bod y gronfa'n ddigon mawr fel y gall yr Ymddiriedolaeth, os yw'n penderfynu gwneud hynny, helpu cynifer o sefydliadau ag sy'n bosibl heb beri risg i'r lefelau incwm y bydd y gronfa'n eu cynhyrchu yn y dyfodol. Bydd y Rheolwr Buddsoddi'n bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn i roddi'r cyngor priodol.

## **3. GWEITHREDU ANGENRHEIDIOL**

- 3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cyngor y Trysorydd a'r Rheolwr Buddsoddi a phenderfynu ar y swm a fydd yn cael ei ddyranu ar gyfer grantiau mwy.

